GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Iechyd, Diogelwch a Lles
Swydd	Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles
Rhif y Swydd	502884
Gradd	16
Lleoliad	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Yn gyfrifol i'r	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Gwasanaethau Technegol
Yn gyfrifol am	Cynghori Penaethiaid, Rheolwyr a holl bersonél ar bob mater sy'n ymwneud â diogelwch, iechyd a lles i sicrhau bydd GTADC yn cydymffurfio â'i ymrwymiadau statudol, o dan gyfraith y DU ac Ewrop. Yn ychwanegol at reoli llinell uniongyrchol : • 1 x Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a Lles • 2 x Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles • 1 x Gweinyddydd Iechyd, Diogelwch a Lles
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol	Cyllideb Flynyddol Gyfredol £25,000

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw o anghenraid yn nodi'n fanwl yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I wasanaethu fel prif awdurdod ar Iechyd, Diogelwch a Lles ar draws y Gwasanaeth, yn goruchwylio tîm ymroddedig a phroffesiynol sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyngor arbenigol cywir o ansawdd uchel. Mae'r rôl hon yn sicrhau darpariaeth cefnogaeth ymarferol ar bob agwedd o reoli iechyd, diogelwch a lles, gan faethu diwylliant o ragoriaeth a chydymffurfiaeth.

Bydd deilydd y swydd yn sicrhau bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Comisiynwyr, rheolwyr, gweithwyr a gwirfoddolwyr yn cwrdd â'u cyfrifoldebau statudol yn llawn o dan ddeddfwriaeth Brydeinig ac Ewropeaidd. Ar ben hyn, byddant yn hyrwyddo datblygu a'u gweithredu diwylliant iechyd, diogelwch a lles rhagweithiol a chadarnhaol ar draws y Gwasanaeth cyfan.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Prif Ddyletswyddau

1. Gweithredu fel person cyfrifol cymwys i reoli Iechyd, Diogelwch a Lles o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ôl gofyn darpariaethau statudol y DG ac Ewrop, (e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch 1999).

2. Gweithio'n uniongyrchol o dan a chefnogi'r Pennaeth Gwasanaethau wrth ddarparu a datblygu trywydd strategol iechyd, diogelwch a lles o fewn y Gwasanaeth.

3. Darparu datrysiadau corfforaethol a strategol a ffocws partner busnes i reoli iechyd, diogelwch a lles pob gweithiwr / gwirfoddolwr / ymwelydd / contractwr ac unrhyw un arall a ellir cael ei effeithio gan weithrediadau busnes Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

4. Datblygu, cyflawni a rheoli'r strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles mewn cydweithrediad ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel arweinwyr Meddygol Iechyd Galwedigaethol a Swyddog Diogelu'r Gwasanaeth.

5. Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth, wrth ymgymryd ag archwiliadau sy'n cynnwys digwyddiadau sy'n gysylltiedig â RIDDOR a digwyddiadau eraill, lle bo'n briodol; gwneud penderfyniadau ar gamau adferol neu ataliol er lles gwelliant parhaus darpariaeth gwasanaethau.

6. Cyflawni, monitro ac adolygu'r gofynion Iechyd, Diogelwch a Lles o dan 'Cynllun Dirprwyo' Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

7. Gwerthuso newidiadau i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r effeithiau ar y Gwasanaeth yn barhaus; gan ddarparu datrysiadau i sicrhau bydd polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn parhau'n bwrpasol, yn unol â chyfarwyddyd statudol.

8. Mae'r rôl yn cynnwys effaith uniongyrchol fawr ar lesiant niferoedd sylweddol o bobl sy'n gweithio y tu fewn i ymyriadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac sy'n ddibynnol arnynt; yn cynnwys asesiad o anghenion grwpiau perthnasol a phennu sut dylid darparu rhaglenni priodol yn unol â Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau proffesiynol fydd yn effeithio llesiant gweithwyr unigol a grwpiau o weithwyr y dyfodol.

9. Teithio ar hyd y DG i gynrychioli'r Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Diogelwch a Lles Cymru Gyfan a Chadeirio cangen Cymru o'r Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Diogelwch a Lles Cymru Gyfan mewn cyfarfodydd rhanbarthol. Cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan ddefnyddio cynllunio dadansoddol a sgiliau dyfarniadol i gyfrannu'n hyfedr at gyfarfodydd/raglenni iechyd, diogelwch a lles cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel gweithgorau/grwpiau/pwyllgorau a phanelau yn unol â gofynion Sefydliadol.

10. Perchnogi polisïau a gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch a Lles wrth ddarparu prosesau o ansawdd da sy'n broffesiynol ac yn gyson drwy ddatblygu, monitro ac adolygu'r polisïau a gweithdrefnau perthnasol o fewn cyfnodau adolygu a raglennir.

11. Darparu cyngor/cyfarwyddyd proffesiynol a chywir fel bo'n briodol i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh), y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol ac Uwch-reolwyr Gwasanaeth eraill i'w diweddaru ar ddatblygiadau o ran polisïau a gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch a Lles.

12. Sicrhau datblygiad, cynhaliaeth ac adolygiad dangosyddion perfformiad ystadegol, (mewnol ac allanol) drwy law meincnodi effeithiol sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r cyrff rheoli perthnasol, e.e. Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Llywodraeth Cymru a'r CPTC. Yn chwarterol ac yn flynyddol, adrodd yn erbyn y dangosyddion hyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol, yr Awdurdod Tân, yr UDRh ac archwilwyr allanol gan gyfarwyddo camau priodol pan fydd materion yn codi.

13. Rheoli a, lle bo'n ofynnol, teithio i gartref/gweithle'r gweithlu i gynnal asesiadau ar sail theori ac ymarferol a pharatoi a dilyn adroddiadau ceisiadau am brofion meddygol, i'w defnyddio'n fewnol ac allanol, e.e. Rhaglen 'Mynediad at Waith', a sicrhau bydd gofynion a adnabuwyd yn cael eu cyflawni yn dilyn amrediad o asesiadau gan y tîm Iechyd, Diogelwch a Lles ar ran personél y Gwasanaeth. Sicrhau'r caffaelir triniaeth/canlyniad effeithiol i gynorthwyo wrth leihau nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch/anaf yn arwain at welliant mewn darparu gwasanaethau.

14. Cynllunio, cyfeirio, cyd-lynu, ymgymryd ag a gwerthuso archwiliadau iechyd, diogelwch a lles, a lle bo'n briodol, adrodd ar y canfyddiadau mewn cydweithrediad â gwasanaethau cyfoedion. Sefydlu a chyfeirio ffrydiau gwaith o unrhyw weithdrefnau ar gyfer cynllunio, gweithredu a monitro iechyd a diogelwch, gan gynnwys adolygu asesiadau risg, adrodd damweiniau ac ystadegau ac ati, casglu, adolygu ac adrodd ar feysydd o bryder ac unrhyw gamau cymeradwy o fewn amserlenni sefydliadol.

15. Cysylltu â sefydliadau trydydd parti i sicrhau bydd archwilio priodol wedi digwydd, i ganiatáu i drydydd parti ymgymryd â'u gwaith yn ddiogel ar safleoedd GTADC, e.e. Aseswyr NVQ, contractwyr.

16. Yn chwarterol ac yn flynyddol, datblygu cynlluniau cefnogi a strategaeth 3 blynedd i'r Gwasanaeth, i ddarparu, hyrwyddo a monitro'r strategaeth iechyd, diogelwch a lles, a sicrhau y cyflawnir amcanion hirdymor y sefydliad.

17. Adnabod, datblygu a chynnal strategaeth hyfforddi iechyd, diogelwch a lles sy'n alinio ag egwyddor datblygu gweithlu'r Gwasanaeth i sicrhau bydd gan y Gwasanaeth y medrau priodol.

18. Sefydlu ac eirioli strategaeth gyfathrebu effeithiol sy'n hyrwyddo diwylliant iechyd, diogelwch a lles cadarnhaol sy'n integreiddio ym mhob agwedd o weithgareddau'r Gwasanaeth, gan gynnwys, ond nid wedi'i gyfyngu, i wybodaeth ddiogelwch sy'n gritigol o ran amser, cylchlythyrau a diweddariadau gweithredol. Sicrhau'r gwasgerir gwybodaeth broffesiynol mewn modd fydd yn cael ei ddeall gan ystod o bartïon i ddarparu'r modd mwyaf effeithiol a defnyddiol fydd o fudd i unigolion a'r Gwasanaeth cyfan.

19. Rheoli, paratoi a monitro'r gyllideb refeniw iechyd, diogelwch a lles, gan adolygu'r gyllideb ac adrodd yn uniongyrchol at yr adran gyllid yn rhinwedd y rôl fel llofnodwr terfynol, ac i sicrhau y cedwir gwariant o fewn terfynau cymeradwy.

20. Cydweithredu â darparwyr yswiriant a chyfreithiol y Gwasanaeth i fonitro, adolygu a lleihau'n rhagweithiol digwyddiad damweiniau a hawliadau damweiniau, gyda'r nod o leihau'r effaith ariannol cysylltiol ar y Gwasanaeth.

21. Chwilio ledled yr amgylchedd wrth edrych am newidiadau deddfwriaethol a gwelliannau parhaus i sicrhau bydd polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn adlewyrchu gofynion y newidiadau hyn a'u bod yn bwrpasol.

22. Adolygu cyfleoedd yn gyson i wella perfformiad y Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles mewn modd cost-effeithiol.

Dyletswyddau Cyffredinol

23. Rhoi rheolaeth ac arweinyddiaeth i'r tîm iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd wrth sefydlu blaenoriaethau, wrth gydlynu gweithgareddau gwaith a monitro safonau ac ansawdd allbynau. Teithio'n rheolaidd ar draws ardal y Gwasanaeth i sicrhau ansawdd effeithiolrwydd y gwaith a

gwblhawyd gan aelodau'r tîm i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyrff statudol.

24. Adolygu perfformiad blynyddol a pharatoi adroddiadau damweiniau blynyddol, digwyddiadau methiannau agos, perfformiad y tîm ac unrhyw faterion eraill o ran iechyd, diogelwch a lles i'r cyfarwyddwr, yr UDRh, yr Awdurdod Tân ac ar achlysur cymell prosesau newydd neu diweddaredig.

25. Teithio i ystod o safleoedd i ddarparu cyngor proffesiynol cywir i weithwyr, contractwyr ac aelodau'r cyhoedd yn ystod digwyddiadau GTADC a gynhelir ar lawr yr orsaf a safleoedd trydydd parti GTADC i sicrhau bydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru'n cyflawni'u dyletswyddau statudol.

26. Mynychu a monitro digwyddiadau ac ymarferion gweithredol pan fo'r gofyn a darparu cyngor Iechyd, Diogelwch a Lles cyfrinachol i aelodau'r Gwasanaeth lle bo'n briodol, i gydlynu lliniaru'r risg ar gyfer atal damweiniau; yn aml mewn sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym lle'n aml bydd y risg cyfan yn anhysbys.

27. I oruchwylio pob agwedd o'r gwasanaeth datgelu o ran materion iechyd a diogelwch, e.e. hawliau cyfreitha, dyfarniadau'r adran gwaith a phensiynau ac ati ac ymgysylltu â'r sefydliadau perthnasol fel y bo'n briodol.

28. Cynorthwyo wrth ddatblygu cynlluniau cyfarwyddiaeth a chorfforaethol sy'n ymwneud â rheoli risg iechyd i gwrdd â chyflawni amcanion gweithredol a datblygu cynlluniau adran/tîm i gefnogi'r rhain.

29. Monitro, adolygu a chynnal portffolio asesiadau risg sy'n gadarn a chyfoes. Staff Cynnal yn gyfrifol am grynhoi asesiadau risg i sicrhau bydd y mesurau rheoli priodol mewn lle a bod y risg hysbys mor isel ag sy'n ymarferol bosib.

30. Datblygu, caffael a chynnal systemau grymus, awtomataidd a ffwythiannol sy'n eithafu'r defnydd o dechnoleg i gyflenwi darpariaeth iechyd a diogelwch hunan-weiniol, e.e. ffurflenni adrodd damweiniau I a D awtomataidd, llyfrgell o gyhoeddiadau iechyd a diogelwch, llyfrgell o asesiadau risg ac ati.

31. Ymgymryd ag a goruchwylio'r gwerthusiadau personol blynyddol a datblygiad personol aelodau'r tîm Iechyd, Diogelwch a Lles; yn caniatáu iddynt gwrdd â'r gofynion newidiol a osodwyd ar y tîm a delio ag unrhyw faterion sy'n codi a chefnogi gofynion unigol.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

D.S: Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru a thu hwnt. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.